

Cyngor i fyfyrwyr sy'n astudio'n annibynnol yn yr UE (rhag ofn y bydd y DU yn ymadael â'r UE heb fargen)

Aros yn yr UE neu ddychwelyd i'r DU?

Wrth i Brexit nesáu, efallai eich bod chi'n ystyried dychwelyd i fyw ac astudio yng Nghymru, ran o'r ffordd trwy gwrs astudio mewn gwlad arall yn yr UE.

Cyn i chi wneud eich penderfyniad, dylech chi ystyried yr holl opsiynau, gan gynnwys beth sy'n iawn i chi a pha mor fforddiadwy yw pob opsiwn.

Cofiwch y bydd y brifysgol neu'r sefydliad rydych chi'n astudio ynddo yn gallu eich helpu chi i feddwl am eich opsiynau a rhoi cyngor a chymorth i chi ynghylch ffioedd a pharhau â'ch cwrs. Rydym yn awgrymu y dylech chu gysylltu â'r brifysgol neu'r sefydliad yn y lle cyntaf.

I helpu, efallai yr hoffech chi feddwl am y canlynol:

1. Gofynion mewnfudo

Mae'n annhebygol y bydd angen i chi adael yr Aelod-wladwriaeth lle rydych chi'n astudio. Mae Comisiwn yr UE wedi darparu sicrwydd y bydd hawliau'r bobl hynny sy'n arfer eu hawl i ryddid i symud cyn i'r DU ymadael â'r UE yn cael eu diogelu os bydd y DU yn ymadael â'r UE heb fargen.

Mae llawer o Aelod-wladwriaethau wedi rhoi sicrwydd gwleidyddol i wladolion y DU ynglŷn â'u hawliau preswyllo a'u hawliau fel dinasyddion ar ôl Brexit.

Gwiriwch a ydych chi'n gymwys i aros - wefan Llywodraeth y DU
<https://www.gov.uk/guidance/advice-for-british-nationals-travelling-and-living-in-europe>

Bydd angen i chi wirio eich bod chi'n gymwys i aros a pha bethau sydd angen i chi eu gwneud i aros. Gall hyn gynnwys cofrestru neu wneud cais am Visa, a dylech chi wneud y pethau hynny cyn gynted â phosibl.

2. Fforddiadwyedd ffioedd dysgu

Dylech chi ystyried cost ffioedd dysgu.

Mae ffioedd dysgu i astudio fel myfyriwr israddedig mewn prifysgol yng Nghymru fel myfyriwr cartref wedi codi i £9,000 y flwyddyn.

3. Cyllid Myfyrwyr

Efallai y gallwch chi wneud cais am gyllid myfyrwyr yn dibynnu ar eich amgylchiadau personol.

I gael cyngor pellach, ewch i wefan [Cyllid Myfyrwyr Cymru](#).

4. Ymrestru

Os ydych chi'n bwriadu dychwelyd ran o'r ffordd trwy gwrs, efallai na fydd modd i chi drosglwyddo i'r un cwrs ar yr un pwynt yn eich astudiaethau.

Bydd angen i chi feddwl yn ofalus am ba gwrs yw'r un iawn i chi a ble yr hoffech chi astudio. Dylech chi gysylltu â swyddfa dderbyn y brifysgol yr hoffech chi astudio ynddi, a fydd yn fwy na pharod i'ch helpu chi.

Dylech chi ystyried casglu cymaint o wybodaeth â phosibl am eich cwrs presennol, gan gynnwys trawsgrifiadau ac asesiadau wedi'u marcio. Dylech chi ofyn am drawsgrifiad a throsglwyddiad credyd ECTS hefyd.

Gallwch chi fynd i wefan [UCAS](#) hefyd.

I gael cyngor pellach ar ddewis cwrs, ewch i wefan [Unistats](#).

5. Mynediad at ofal iechyd

I gael cyngor ar fynediad at ofal iechyd yng Nghymru, ewch i [Paratoi Cymru - Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol](#).

Os bydd y DU yn ymadael â'r UE heb fargen ar 29 Mawrth 2019, mae'n debygol y bydd eich mynediad at ofal iechyd wrth ymweld ag un o wledydd yr UE, neu astudio yn un o wledydd yr UE, yn newid.

Os ydych chi'n bwriadu astudio mewn gwlad arall yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA), bydd angen i chi wneud cais am [Gerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd, neu EHIC](#) ("EHIC myfyriwr").

I wneud cais, bydd angen i chi lawrlwytho'r [ffurflen gais EHIC \(PDF, 435kb\)](#) a'i dychwelyd i Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG. Ni allwch chi wneud cais am EHIC myfyriwr ar-lein na thros y ffôn. Os oes gennych chi unrhyw ddibynyddion, bydd angen i chi eu cynnwys nhw ar eich cais.

Bydd eich EHIC myfyriwr yn gymwys am hyd eich cwrs. Os oes gennych chi EHIC yn barod, bydd angen i chi ei ddychwelyd pan fyddwch chi'n gwneud cais am EHIC myfyriwr.

Efallai y byddwch chi'n colli eich hawl i gael EHIC y DU os bydd eich amgylchiadau'n newid (er enghraifft, os byddwch chi'n dechrau gweithio yn y wlad EEA ble rydych chi'n astudio). O dan yr amgylchiadau hynny, efallai y bydd angen i chi gofrestru ar gyfer gofal iechyd y wladwriaeth yn y wlad ble rydych chi'n astudio neu gael yswiriant gofal iechyd preifat.

Os byddwch chi'n penderfynu dychwelyd i Gymru i gwblhau eich astudiaethau, byddwch chi'n gallu cael mynediad at ofal iechyd am ddim, cyn belled â'ch bod yn preswyllo fel arfer yng Nghymru. Mae hyn yn golygu eich bod chi'n preswyllo

yng Nghymru am ddigon o amser fel y gellid ystyried mai yng Nghymru mae eich cartref “sefydlog”.

6. Tai

Mae'r UE wedi nodi na fydd hawliau unigolion o'r DU sy'n byw yn yr UE pan fydd y DU yn ymadael â'r UE yn newid. Fodd bynnag, dylech chi wirio gwefan [Comisiwn yr UE](#) a'r cyngor yn ymwneud â'r wlad ble rydych chi'n byw.

Mae hyn yn golygu na ddylai unrhyw un wahaniaethu yn eich erbyn ac, os oes gennych chi hawl i aros yn y wlad, y dylech chi fod yn gymwys i rentu llety fel rydych chi'n ei wneud nawr.

Beth sy'n digwydd os na alla i aros?

Os na allwch chi aros yn y wlad ble rydych chi'n astudio oherwydd rheolau mewnfudo, efallai y gall eich prifysgol eich helpu chi i drafod eich opsiynau, gan gynnwys argaeledd drawsgrifiad a throsglwyddiad credyd ECTS.

Dylech chi gysylltu â swyddfa dderbyn y sefydliad yng Nghymru rydych chi eisiau astudio ynddo gan efallai y bydd yn gallu helpu.

Gallwch chi gysylltu ag [UCAS](#) i gael help a chyngor ac i drafod eich cais.

Cofiwch efallai y bydd y brifysgol neu'r sefydliad rydych chi'n astudio ynddo yn gallu eich helpu chi i feddwl am eich opsiynau a rhoi cyngor a chymorth i chi.

Os ydych chi'n wladolyn y DU sy'n byw yn yr UE ond nad ydych chi erioed wedi byw yn y DU

Dylech chi gysylltu â'r corff cyllid myfyrwyr perthnasol yn y wlad ble rydych chi eisiau astudio i gael mwy o wybodaeth am eich cymhwysedd i gael cymorth cyllid myfyrwyr.

- Cymru: <https://www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk/>
- Lloegr: <https://www.gov.uk/student-finance>
- Yr Alban: <https://www.saas.gov.uk/>
- Gogledd Iwerddon: <https://www.studentfinanceneni.co.uk/>